Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Rhestr Wirio Cyngor ac Asesiad Milfeddygol Ar Fferm Cymorth TB

Pwrpas yr ymweliad ar y fferm yw i chi, y milfeddyg wneud y canlynol:

- trafod y sefyllfa o ran Twbercwlosis (TB) ar y fferm â'r ffermwr a rhoi cymorth
- rhoi gwybodaeth bellach i'r ffermwr am y clefyd a'r broses sy'n gysylltiedig ag achosion o TB
- rhoi cyngor ar fioddiogelwch a diogelu'r fuches rhag cyflwyno TB a'i ledaenu
- asesu a chynghori'r ffermwr ar opsiynau yn y dyfodol o ran parhad busnes (pe bai o dan gyfyngiadau)
- ymchwilio i'r ffordd y caiff y fferm ei rheoli a bioddiogelwch ar y safle er mwyn asesu'r risg o ledaenu'r clefyd a rhoi cyngor ar sut i leihau risgiau
- nodi ffynonellau posibl, ffactorau risg ac amcanion ar gyfer cael gwared ar y clefyd ar y daliad a diogelu'r ardal leol a gwneud argymhellion i'r ffermwr a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Llywodraeth Cymru
- rhoi cyngor i'r ffermwr ar arfer gorau i leihau'r tebygolrwydd o achosion eraill o TB.

Fel arfer, dylai o leiaf 70% o'r ymweliad gael ei dreulio ar fynd ar daith o amgylch y fferm, cerdded ar hyd y ffiniau lle y bo modd, a thrafod problemau a nodwyd gyda'r ffermwr.

Ni fwriedir i'r rhestr wirio ganlynol fod yn rhagnodol ond dylai dywys y sgwrs ar rai o'r materion pwysicaf o ran TB. Rydym yn eich annog i wneud argymhellion ar gyfer cymryd camau gweithredu pellach os credwch fod ymyriad penodol a allai helpu i ddileu achos o TB neu leihau'r risg o achosion eraill.

Dylech chi a cheidwad y fuches lofnodi'r ffurflen hon fel cofnod o'r sgwrs a'r ymweliad. Dylid rhoi copi caled wedi'i lofnodi i geidwad y fuches fel y bydd ganddo/ganddi grynodeb o'r argymhellion ar gyfer camau gweithredu. Dylid anfon copi arall i APHA (gweler y cyfeirid yn y nodyn cyfarwyddyd a atodir).

**Manylion y Fferm**

| | |
|---|---|
| Enw Ceidwad y Fuches: | |
| Cyfeiriad: | Cod Post: |
| Enw/Cyfeiriad y Perchennog (os yw'n wahanol): | |
| Manylion Cyswllt y daliad: | |
| Rhif y Daliad: | |
| Math o ddaliad (prif): | |
| Rhif achos TB: | |
| Rhif WS Sam Cymorth TB: | |
| Math o ymweliad: Dilëwch fel y bo'n briodol | Achos / Achos wedi dod i ben/Cadw TB Allan |
| Dyddiad yr ymweliad: | |

| | | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|---|
| **Y prawf TB** - a yw ceidwad y fuches yn deall | a. Canlyniadau profion a'u heffaith ar y statws TB presennol | ☐ | ☐ |
| | b. Cyfyngiadau TB, os ydynt yn gymwys | ☐ | ☐ |
| | c. Yr amserlen ar gyfer archwiliad post mortem PCR/ meithriniad ac arwyddocâd y canlyniadau hyn, os yw'n gymwys | ☐ | ☐ |
| | ch. Sensitifrwydd y prawf (gan gynnwys dehongliad safonol/llym) ac adweithyddion amhendant | ☐ | ☐ |
| | d. Pa fath o brawf fydd y prawf nesaf a'i ddyddiad | ☐ | ☐ |
| **Math o fuches a busnes fferm** - a ydych wedi ystyried ac ymchwilio: | a. Maint y fuches a'i math | ☐ | ☐ |
| | b. Gofynion parhad busnes | ☐ | ☐ |
| **Glanhau a diheintio** | a. A yw'r ffermwr yn ymwybodol o'r gofyniad i ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd ar gyfer TB yn unol â'r gyfradd wanhau gywir? | ☐ | ☐ |
| | b. A yw'r ffermwr yn ymwybodol o'r gofyniad i ddychwelyd y slip ar ffurflen BT05, os yw o dan gyfyngiadau? | ☐ | ☐ |

| **Nodiadau** |
|---|
| |

## Cysylltiadau, ffynonellau cyngor a hyfforddiant defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Llawlyfr i ddiogelu iechyd eich gwartheg**<br><br> | **Gwefan Llywodraeth Cymru ar TB mewn gwartheg**<br><br> |
| **Delio â TB yn eich buches**<br><br> | **Gwefan GOV.UK ar TB mewn gwartheg**<br><br> |

**Ffactorau risg a mesurau rheoli**

**1. Gwartheg – symudiadau**

| **A ydych wedi adolygu...?** | **A yw'r ffactorau risg hyn yn chwarae rôl ar y fferm hon?** | **Ydyn** | **Nac ydyn** | **Os ydynt, a all y fferm ddefnyddio'r mesur(au) rheoli hwn/hyn a awgrymir?**<br><br>Os yw'n ymweliad achos, ystyriwch **a fydd** y fferm yn eu defnyddio, neu os yw'n ymweliad achos wedi dod i ben, ystyriwch **a wnaeth** y fferm eu defnyddio. | **Gall** - bob amser | **Ar y cyfan** - yn amlach na hanner yr amser | **Yn rhannol** - llai na hanner yr amser | **Na all** - byth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwartheg - symudiadau**<br><br>**Cyflwyno gwartheg** (i gynnwys y nifer a'r math a gyflwynir mewn amgylchiadau normal ffynhonnell/ffynonellau y gwartheg, pa mor agos yw ffynhonnell y gwartheg a brynwyd at achosion o TB, oedran y gwartheg, math o fesurau ataliol, manteision AI a buches reoledig) | Prynu gwartheg yn rheolaidd | | | A all y fferm fabwysiadu polisi buches reoledig drwy fagu gwartheg eu hunain? | | | | |
| | Gwartheg newydd a brynwyd (e.e. gwerthiannau gwasgaru) | | | A ellir cynnal profion cyn symud ar yr holl wartheg newydd cyn eu cyflwyno i'r fuches? | | | | |
| | Cyflwyniad uniongyrchol o wartheg a brynwyd i'r fuches | | | A ellir ynysu'r gwartheg newydd a brynwyd a chynnal profion ar ôl symud arnynt cyn eu cyflwyno i'r fuches? | | | | |
| | Defnyddio teirw llogi | | | A all y fferm ddefnyddio AI neu ei tharw ei hun? | | | | |
| | **Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw** | | | | | | | |

## 2. Gwartheg - cyffiniol

| A ydych wedi adolygu...? | A yw'r ffactorau risg hyn yn chwarae rôl ar y fferm hon? | | | Os ydynt, a all y fferm ddefnyddio'r mesur(au) rheoli hwn/hyn a awgrymir[1]<br><br>Os yw'n ymweliad achos, ystyriwch **a fydd** y fferm yn eu defnyddio, neu os yw'n ymweliad achos wedi dod i ben, ystyriwch **a wnaeth** y fferm eu defnyddio. | **Gall** - bob amser | **Ar y cyfan** - yn amlach na hanner yr amser | **Yn rhannol** - llai na hanner yr amser | **Na all** - byth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Oes** | **Nac ydyn** | | | | | |
| **Gwartheg - cyffiniol**<br><br>**Cymysgu buchesi a chyswllt â gwartheg eraill** (i gynnwys defnyddio tir pori comin neu dir pori a rennir, cyswllt uniongyrchol â gwartheg ffermydd cyfagos, gwartheg yn dychwelyd o sioeau neu farchnadoedd, defnyddio ardaloedd buarth a rennir neu gyfleusterau profi a rennir) | Cyswllt â gwartheg ffermydd cyfagos | | | A all y fferm gynnal ffiniau diogel er mwyn atal cyswllt trwyn wrth drwyn a chrwydro gyda gwartheg ffermydd cyfagos? | | | | |
| | Defnyddio tir pori a rennir | | | A all y fferm osgoi defnyddio tir pori a rennir? | | | | |
| | **Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw** | | | | | | | |

## 3. Gwartheg - haint sy'n weddill

<table>
<tr><th rowspan="2">A ydych wedi adolygu...?</th><th colspan="3">A yw'r ffactorau risg hyn yn chwarae rôl ar y fferm hon?</th><th rowspan="2">Os ydynt, a all y fferm ddefnyddio'r mesur(au) rheoli hwn/hyn a awgrymir?<br><br>Os yw'n ymweliad achos, ystyriwch a fydd y fferm yn eu defnyddio, neu os yw'n ymweliad achos wedi dod i ben, ystyriwch a wnaeth y fferm eu defnyddio.</th><th rowspan="2">Gall - bob amser</th><th rowspan="2">Ar y cyfan - yn amlach na hanner yr amser</th><th rowspan="2">Yn rhannol - llai na hanner yr amser</th><th rowspan="2">Na all - byth</th></tr>
<tr><th></th><th>Oes</th><th>Nac ydyn</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Gwartheg - haint sy'n weddill<br><br>Hanes o achosion o bTB a chynnal profion yn y fuches (gan gynnwys presenoldeb Anifeiliaid heb adwaith pendant a gwartheg risg uwch eraill a bod yr holl brofion yn gyfredol)</td><td>Gall presenoldeb cyson gwartheg heb adwaith pendant achosi risg uwch</td><td></td><td></td><td>A all y fferm ddifa gwartheg heb adwaith pendant yn wirfoddol?</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Ynysu anghyflawn o wartheg heb adwaith pendant</td><td></td><td></td><td>Mae'n ofyniad statudol bod yr holl wartheg heb adwaith pendant yn cael eu hynysu.</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Profion anghyflawn neu hwyr.</td><td></td><td></td><td>A all y fferm gwblhau'r holl brofion fel y trefnwyd, gan gynnwys profion gamma os yw hynny'n briodol?</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="8">Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw</td></tr>
</table>

## 4. Moch daear

| A ydych wedi adolygu...? | A yw'r ffactorau risg hyn yn chwarae rôl ar y fferm hon? | Oes | Nac ydyn | **Os ydynt, a all y fferm ddefnyddio'r mesur(au) rheoli hwn/hyn a awgrymir?**<br><br>Os yw'n ymweliad achos, ystyriwch **a fydd** y fferm yn eu defnyddio, neu os yw'n ymweliad achos wedi dod i ben, ystyriwch **a wnaeth** y fferm eu defnyddio. | **Gall** - bob amser | **Ar y cyfan** - yn amlach na hanner yr amser | **Yn rhannol** - llai na hanner yr amser | **Na all** - byth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Moch daear**<br><br>**Cyswllt â bywyd gwyllt** (i gynnwys lleoliad brochfeydd a charthfeydd moch daear, systemau pori a ddefnyddir a chyswllt posibl ar dir pori, mesurau ataliol wrth bori ar dir pori a chyflenwad dŵr ar y tir pori, cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl o fewn adeiladau'r fferm, beudai, storfeydd bwyd a silwair, ac arferion bwydo eraill a allai annog moch daear, er enghraifft bwydo rhywogaethau eraill ar y tir pori megis porthwyr isel ar gyfer wŷn neu borthwyr adar hela. | Cyswllt gwartheg (uniongyrchol ac anuniongyrchol) â moch daear ar dir pori | | | A all y fferm roi mesurau ar waith er mwyn atal cyswllt â moch daear ar dir pori – a ellir ffensio o amgylch brochfeydd a charthfeydd moch daear? | | | | |
| | Cyswllt gwartheg (uniongyrchol ac anuniongyrchol) â moch daear mewn adeiladau fferm | | | A all y fferm ddiogelu storfeydd porthiant i atal moch daear rhag cael mynediad atynt? | | | | |
| | | | | A all y fferm ddiogelu storfeydd/claddfeydd silwair i atal moch daear rhag cael mynediad atynt? | | | | |
| | Gall moch daear gael mynediad at lyfleoedd mwynau a/neu gafn porthiant/dŵr | | | A ellir codi cafnau porthiant, llyfleoedd mwynau a chafnau dŵr oddi ar y ddaear i atal moch daear rhag cael mynediad atynt? *(Gydag ystyriaeth ar gyfer uchder y cafn dŵr lle mae defaid yn cyd-bori).* | | | | |
| | **Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw** | | | | | | | |

**Gadawyd y dudalen hon yn wad a gellir ei defnyddio i dynnu llun o'r buarth er mwyn helpu i nodi pwyntiau mynediad gan foch daear a bywyd gwyllt eraill i adeiladau ac ati.**

**5. Anifeiliaid eraill**

| A ydych wedi adolygu...? | A yw'r ffactorau risg hyn yn chwarae rôl ar y fferm hon? | | | Os ydynt, a all y fferm ddefnyddio'r mesur(au) rheoli hwn/hyn a awgrymir?<br><br>Os yw'n ymweliad achos, ystyriwch **a fydd** y fferm yn eu defnyddio, neu os yw'n ymweliad achos wedi dod i ben, ystyriwch **a wnaeth** y fferm eu defnyddio. | **Gall** - bob amser | **Ar y cyfan** - yn amlach na hanner yr amser | **Yn rhannol** - llai na hanner yr amser | **Na all** - byth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Oes** | **Nacydyn** | | | | | |
| **Anifeiliaid eraill**<br><br>A oes da byw neu anifeiliaid domestig eraill ar y fferm? | Da byw eraill a gyd-leolir (er enghraifft, camelidau, moch, geifr a cheirw) | | | A all y fferm gadw'r rhywogaethau da byw eraill yn ddiogel oddi wrth y fuches wartheg? | | | | |
| | Anifeiliaid domestig eraill (cathod) | | | A all y fferm gadw anifeiliaid domestig yn ddiogel oddi wrth y fuches wartheg? | | | | |
| | **Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw** | | | | | | | |

## 6. Anuniongyrchol

| A ydych wedi adolygu...? | A yw'r ffactorau risg hyn yn chwarae rôl ar y fferm hon? | Oes | Nac ydyn | Os ydynt, a all y fferm ddefnyddio'r mesur(au) rheoli hwn/hyn a awgrymir?<br><br>Os yw'n ymweliad achos, ystyriwch **a fydd** y fferm yn eu defnyddio, neu os yw'n ymweliad achos wedi dod i ben, ystyriwch **a wnaeth** y fferm eu defnyddio. | **Gall** - bob amser | **Ar y cyfan** - yn amlach na hanner yr amser | **Yn rhannol** - llai na hanner yr amser | **Na all** - byth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anuniongyrchol**<br><br>I gynnwys rheoli slyri a thail, offer a rennir, contractwyr, staff y fferm ac ymwelwyr | Gwasgaru slyri neu dail ar dir pori | | | A all y fferm osgoi rhoi gwartheg i bori ar dir pori am o leiaf 60 diwrnod ar ôl gwasgaru slyri neu dail? | | | | |
| | Offer a rennir ar gyfer gwasgaru slyri neu dail | | | A all y fferm osgoi defnyddio offer a rennir ar gyfer gwasgaru slyri neu dail? | | | | |
| | Glendid gwael beudai ac offer. | | | A all y fferm lanhau a diheintio beudai ac offer yn rheolaidd? | | | | |
| | Cerbydau cludo da byw ac offer fferm a rennir | | | A all y fferm osgoi defnyddio cerbydau cludo da byw ac offer fferm a rennir? | | | | |
| | Diheintio gwael cerbydau cludo da byw ac offer a rennir | | | A all y fferm sicrhau y caiff unrhyw gerbydau cludo da byw ac offer a rennir eu golchi a'u diheintio yn drwyadl? | | | | |
| | Staff y fferm ac ymwelwyr | | | A all y fferm ddarparu dillad diogelu i staff y fferm ac ymwelwyr? | | | | |
| | Diheintio gwael dillad diogelu a darpariaeth wael o ddipiau esgidiau | | | A all y fferm ddarparu dipiau diheintio esgidiau a diheintio dillad diogelu? | | | | |
| | **Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw** | | | | | | | |

## 7. Arall

| A ydych wedi adolygu...? | A yw'r ffactorau risg hyn yn chwarae rôl ar y fferm hon? | | | Os ydynt, a all y fferm ddefnyddio'r mesur(au) rheoli hwn/hyn a awgrymir?<br><br>Os yw'n ymweliad achos, ystyriwch **a fydd** y fferm yn eu defnyddio, neu os yw'n ymweliad achos wedi dod i ben, ystyriwch **a wnaeth** y fferm eu defnyddio. | **Gall** - bob amser | **Ar y cyfan** - yn amlach na hanner yr amser | **Yn rhannol** - llai na hanner yr amser | **Na all** - byth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Oes** | **Nac ydyn** | | | | | |
| **Arall**<br><br>Cyflawni'r cynllun iechyd buches a rheoli lloi | Bwydo llaeth heb ei drin i loi | | | A all y fferm fwydo powdr llaeth i loi neu sicrhau bod llaeth wedi'i basteureiddio cyn ei fwydo i loi? | | | | |
| | Statws iechyd buches gwael a chlefyd endemig cydgyfredol | | | A all y fferm gynnal cynllun iechyd buches cyfredol i gefnogi lefelau isel o glefydau endemig a chlefydau cynhyrchu? | | | | |
| | Cynyddu maint y fuches | | | A all y fferm gyflwyno grwpiau rheolaeth ar wahân i leihau'r risg o ymledu? | | | | |
| | **Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw** | | | | | | | |

## 8. Ffactorau risg ychwanegol

| A ydych wedi adolygu...? | Ffactorau risg a mesur(au) rheoli a awgrymir ar gyfer cyflwyniad neu ymlediad TB |
|---|---|
| A oes unrhyw ffactorau risg ychwanegol a mesurau rheoli y gellir eu nodi ar y fferm hon? | **Nodiadau ar argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd â nhw** |

**Argymhellion ar gyfer camau gweithredu pellach**

Cwblhewch y templed isod gyda'r holl argymhellion a wnaed yn dilyn yr ymweliad hwn.

**1. Argymhellion i'r ffermwr**

Ar ôl asesu'r ffactorau risg ar gyfer y fferm hon, yn gryno, beth yw'r argymhellion â blaenoriaeth ar gyfer mesurau rheoli ymarferol i gefnogi dileu bTB o'r fuches?

| **Categori ffactor risg** | **Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|---|
| 1. Gwartheg - symudiadau | |
| 2. Gwartheg - cyffiniol | |
| 3. Gwartheg - haint sy'n weddill | |
| 4. Moch daear | |
| 5. Anifeiliaid eraill | |
| 6. Anuniongyrchol | |
| 7. Arall | |
| 8. Ffactorau risg ychwanegol | |

## 2. Argymhellion i Lywodraeth Cymru ac APHA i'w hystyried

| |
|---|
| |

Rwyf wedi cynnal ymweliad cymorth a chyngor Cymorth TB ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu fy nhrafodaethau gyda'r ffermwr ac yn gofnod o'm hargymhellion/cyngor i'r ffermwr:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | Dyddiad | |
| Milfeddyg Swyddogol Ymarfer (OV) | | | |

Cefais ymweliad cymorth a chynghori Cymorth TB ac mae'r adroddiad hwn yn gynrychiolaeth dda o'n sgwrs a'r argymhellion a wnaed i mi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | Perchennog/Ceidwad | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | Dyddiad | |

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.